# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**29.11.24**




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's greeting

Mae'r Cyngor Ysgol wedi cael wythnos prysur! Diolch i'r aelodau am eu syniadau ar gyfer adnewyddu adnoddau chwarae ar yr iard, diolch enfawr i'r PTA sydd wedi talu am yr adnoddau a diolch i Mrs Davies am eu harchebu. Bu cyffro mawr ar yr iard wrth i ni eu defnyddio am y tro cyntaf heddiw. Mae'r Cyngor Ysgol wedi rhannu neges bwysig am ofal a pharch wrth ddefnyddio'r adnoddau fel eu bod ar gael i bawb. Cafwyd gyfarfod hyfryd neithiwr wrth i'r Cyngor Ysgol rannu syniadau a blaenoriaethau gyda **Llywodraethwyr** yr Ysgol. Mae yma bartneriaeth hyfryd!

Mae paratoadau'r Nadolig wedi parhau'n egnïol yr wythnos hon a'r cyffro yn sicr yn codi. Gobeithio'ch bod wedi cofio prynu eich tocynnau ar gyfer y Sioe Nadolig – cofiwch wneud ar ParentPay erbyn Rhagfyr 6ed (wythnos i heddiw!). Cadwch lygad allan am Galendr Adfent Caredigrwydd. Rydym wedi casglu syniadau'r plant yn barod i'w rhannu. Tasg gyntaf y Calendr ar Ddydd Sul 1/12 yw cofio dweud diolch wrth mam neu dad am rywbeth!

Bydd 4C yn cynnal gwasanaeth arbennig i gofio **Trychineb y Lan** wythnos nesa. Bydd hwn lawr yn y Lan ac yn dechrau am 9.30am. Edrychwn ymlaen at weld teuluoedd 4C yno. Posib bydd angen esgidiau glaw ar blant a rhieni – rhown ni wybod!

Yn dyddiad arall i'r calendr i rieni plant Meithrin – byddwn yn cynnal gweithdy addurn Nadolig i rieni ar Ddydd Mercher 18.12. Digwyddiad hyfryd bob amser!

\- - - - - - - -

The School Council has had a busy week! Thanks to members for their ideas for renewing playground resources, huge thanks to the PTA who have paid for the resources and thanks to Mrs Davies for ordering and organising. There was some excitement here as we used them for the first time today! The School Council has shared an important message of care and respect in using the resources so that they are available to all. We also had a lovely meeting last night as the School Council shared ideas and priorities with the **School Governors**. A lovely partnership indeed!

Christmas preparations have continued vigorously this week and the excitement is certainly rising. I hope you've remembered to buy your tickets for the Christmas Show – don't forget to order on ParentPay by December 6th (a week today!). Keep an eye out for our whole school Kindness Advent Calendar. We are collecting the children's ideas ready to share. The first task on Sunday 1/12 is to remember to say *Diolch* to mam and dad for something!

4C will be holding a special memorial service to remember **The Lan** Disaster next Friday morning. This will be held at The Lan and will begin at 9.30am. We look forward to seeing 4C families there. We may all need wellies – we will let you know!

As another date for the calendar for parents of Nursery children – we will be holding a Christmas decoration workshop for parents on Wednesday 18.12. Always a lovely event!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**04.12.24**
Taith Nadolig 1C 1E 2C
Christmas trip 1C 1E 2C

**6.12.24** (Gwener / Friday)
**Gwasanaeth Y Lan 4C**
**4C Y Lan Service**

**06.12.24** (Gwener / Friday)
**Ffair Nadolig**
**Christmas Fair**

**11.12.24 a 12.12.24**
Gwasanaethau Nadolig
Christmas Services

**13.12.24**
Diwrnod Siwmper Dolig a Cinio Dolig
Christmas Jumper Day and Christmas Dinner

**17.12.24**
Theatr y Sherman (Meithrin)
Sherman Theatre (Nursery)

**18.12.24**
Sherman Theatre (2E)

**18.12.24** (1.30 – 3pm)
Gweithdy rhieni meithrin
Nursery parents workshop

**19.12.24**
Sioe Cyw (Derbyn)

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's homepage.



**Dysgwyr yr Wythnos**
**Learners of the week**



**Cymro / Cymraes yr Wythnos**
**Welsh learners of the week**




Byddwn yn cynnau golau'r goeden am 5pm ar yr iard yn y Ffair – dewch i ganu carolau gyda ni yno!

We will be switching on the Christmas Tree lights at 5pm in the Fair – join us there to sing some carols!

Byddwn yn gwerthu tocynnau ar gyfer groto Sion Corn y Ffair Nadolig o ddydd Llun, 25/11/24 ymlaen. Bydd y tocynnau yn £3 yr un ac ar werth yn swyddfa'r ysgol ac ar yr iard ar ddiwedd y dydd.

We will be selling tickets for the Christmas Fair's Sion Corn grotto from Monday, 25/11/24. Tickets will be £3 each and on sale at the school office and yard at the end of the day.

- - - -

Bydd cyfle i enwi'r tedi eto eleni. Y gost am hyn fydd £1 yr enw, felly anfonwch eich arian gyda'ch plentyn i'r ysgol os hoffech gynnig arni!

There will be an opportuntiy name the teddy again this year. The cost for this will be £1 per name, so send your money with your child to school if you'd like to have a go!



# <u>Stondin Siwmperi Nadolig</u>



Mae'r Pwyllgor Eco yn awyddus i gasglu siwmperi Nadolig plant ac oedolion ar gyfer stondin werthu ar iard yr ysgol.

Bob blwyddyn mae nifer fawr o ddillad yn cael eu taflu i'r bin fel sbwriel a hoffwn leihau hyn!

Bob wythnos yn y Deyrnas Unedig, mae 6,461 tunnel o ddillad yn cael ei danfon i gladdfeydd. Yn anffodus rydym ond yn ailgylchu 1% o'n dillad. Hoffwn wella hyn!

Felly eleni, os oes hen siwmper/ siwmperi Nadolig gyda chi, hoffwn i chi ddod a nhw i'r ysgol yn lân ac mi fyddwn yn eu gwerthu ar stondin ar yr iard bob prynhawn o 1/12/24 am 15:15-15:30yp. Beth am brynu siwmper oddi wrthym ni, yn hytrach na phrynu un newydd? Mae'n gyfle gwych i leihau gwastraff!

## Dewch a'ch siwmperi Nadolig sy'n rhy fach/hen/di angen i 2E o yfory ymlaen.

Diolch am eich cefnogaeth,

Y Pwyllgor Eco.



£1



# Christmas Jumper Stall





The Eco Committee is keen to collect Christmas jumpers for children and adults for a sales stand on the school yard.

Every year a large number of clothes are thrown into the bin as rubbish and we would like to reduce this!

Every week in the United Kingdom, 6,461 tonnes of clothing is sent to landfill sites. Unfortunately we only recycle 1% of our clothes. We would like to improve this!

So this year, if you have any old Christmas jumper/s, we would like you to bring them to school and we will sell them on a stand in the yard every afternoon from 1/12/24 at 15:15-15:30pm. Why not buy a jumper from us, rather than buying a new one? It's a great opportunity to reduce waste!

## Bring your Christmas jumpers that are too small/ old/not needed to 2E from tomorrow.

Thank you for your support,

The Eco Committee.



£1

